# PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion cyfarfod o’r Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun LL15 1YN, Dydd Gwener, 4 Rhagfyr 2015 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Yr Aelodau Annibynnol Mr Ian Trigger (Cadeirydd), Paula White, Julia Hughes, Anne Mellor a’r Cynghorydd W.L. Cowie.

Roedd y Cyng. M.Ll. Davies yn bresennol fel arsylwr.

## HEFYD YN BRESENNOL

Swyddog Monitro (GW) a Swyddog Gweinyddol (CIW).

Cefnogodd yr Aelodau gais gan y Cadeirydd y dylai rhaglenni ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol o'r Pwyllgor Safonau fod ar gael i Aelodau'r Pwyllgor un wythnos cyn dyddiad y cyfarfod.

**(GW i Weithredu)**

## 1 ETHOL IS-GADEIRYDD

***PENDERFYNWYD -*** *penodi Mrs Paula White yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau.*

## 2 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) David Jones a/ac Barry Mellor.

## 3 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni wnaeth unrhyw Aelod ddatgan cysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw eitem a oedd i’w hystyried yn y cyfarfod.

## 4 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Yn unol â gofynion Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, nododd y Cadeirydd ei fwriad i gynnwys y mater canlynol i’w drafod oherwydd bod angen rhoi sylw brys iddo:

1. Ymgynghoriad ar Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Cynllun Strategol Tair Blynedd

Hysbyswyd y Pwyllgor gan y Swyddog Monitro ei fod wedi cael dogfen ymgynghori mewn perthynas ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Cynllun Strategol Tair Blynedd, ar 3 Rhagfyr, 2015, a bod ymateb wedi'i geisio erbyn 2 Chwefror, 2016.

Cytunodd y Pwyllgor â'r awgrym bod y Swyddog Monitro'n cylchredeg y ddogfen ymgynghori ac yn gofyn am ymatebion gan Aelodau'r Pwyllgor, a fyddai'n cael eu casglu a'u hail-ddosbarthu i'r Aelodau i'w hystyried ymhellach. Eglurodd y Swyddog Monitro nad oedd y geiriad "Cod Ymddygiad" neu "Cod Ymddygiad Aelodau" yn ymddangos yn y ddogfen, a'i fod yn bwriadu cyfeirio at hyn yn yr ymateb.

Cytunodd yr Aelodau i gynnwys eitem ynglŷn ag Ymgynghoriad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Cynllun Strategol Tair Blynedd, yn rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor ar gyfer ei gyfarfod ar 4 Mawrth, 2016.

## 5 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 22 Mai, 2015.

**Cywirdeb:-**

Yn bresennol:- Enw'r Cynghorydd D.E. Jones i'w dynnu oddi ar y rhestr o Aelodau a oedd yn bresennol gan ei fod wedi cyflwyno ymddiheuriad am absenoldeb.

Ymddiheuriadau:- Cynnwys enwau'r Cynghorwyr B. Mellor a D.E. Jones fel rhai a oedd wedi cyflwyno ymddiheuriadau am absenoldeb.

**Materion yn codi:-**

7. Ymweliadau â Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned - Mewn ateb i gais gan yr Aelod Annibynnol J. Hughes (JH), cytunwyd darparu rhestr wedi'i diweddaru o ymweliadau gan Aelodau'r Pwyllgor rhwng y cyfarfodydd blaenorol a'r cyfarfodydd presennol, er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw ddyblygiad o ymweliadau â Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned.

Mewn ymateb i gwestiwn gan yr Aelod Annibynnol A. Mellor (AM), cytunwyd y gallai fod yn fuddiol os byddai JH, fel Aelod o'r Pwyllgor sy'n siarad Cymraeg, yn gallu mynd i gyfarfodydd penodol yn yr ardal a ddynodir fel Clwstwr 3. Cytunodd y Swyddog Monitro y dylid cylchredeg rhestr wedi'i diweddaru o Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned, gan gynnwys manylion cyswllt, a lle bo modd, amseroedd a dyddiadau cyfarfodydd, i Aelodau'r Pwyllgor Safonau.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd W.L. Cowie ynglŷn â rôl Aelodau'r Pwyllgor Safonau wrth adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Safonau yn dilyn eu presenoldeb mewn cyfarfodydd, yn enwedig mewn achosion lle'r oedd swyddog cyfreithiol y Cyngor hefyd wedi bod yn bresennol. Gofynnodd y Cynghorydd Cowie am eglurhad ynghylch rolau priodol Aelodau'r Pwyllgor Safonau a'r swyddogion cyfreithiol mewn amgylchiadau o'r fath.

Amlinellodd y Swyddog Monitro rôl y Pwyllgor Safonau a'i Aelodau wrth osod ac arsylwi ar safonau i adlewyrchu canfyddiad y cyhoedd o'r modd y mae'r Cyngor a'i Aelodau yn cynnal ei hun. Eglurodd mai cylch gorchwyl y Pwyllgor oedd darparu cefnogaeth i'r Swyddog Monitro ac Aelodau Etholedig y Cynghorau Sir, Dinas, Tref a Chymuned. Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at y manteision posibl o drafod

materion a allai godi yn y cyfarfodydd a fynychir gan swyddogion cyfreithiol, a rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor na fyddai swyddogion cyfreithiol yn teimlo eu bod yn cael eu tanseilio gan bresenoldeb Aelodau'r Pwyllgor Safonau mewn cyfarfodydd roeddent yn bresennol ynddynt.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD*** *– yn amodol ar yr uchod, derbyn a chymeradwyo'r Cofnodion fel cofnod cywir.*
***(GW i Weithredu)***

## 6 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn cyflwyno'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol i'w hystyried a'i mabwysiadu.

Ystyriodd yr Aelodau Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau a chytunwyd ar y diwygiadau canlynol:-

**4 Mawrth, 2016:-**

(a) Ystyried Adroddiad Blynyddol drafft y Pwyllgor Safonau.
(b) Diweddariad Ymgynghoriad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Cynllun Strategol Tair Blynedd.
(c) Diweddariad Llyfr Achos Cod Ymddygiad.

Hysbyswyd yr Aelodau y byddai dyddiadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor, mewn perthynas â chyfarfodydd Fforwm Safonau Gogledd Cymru, yn cael eu cynnwys yn y rhaglen gwaith i'r dyfodol yn dilyn cytundeb ar ddyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD*** *- yn amodol ar ychwanegu'r uchod, bod y Pwyllgor Safonau'n cytuno ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.*
***(GW, CW i Weithredu)***

## 7 BIL DRAFFT OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS (CYMRU) – YMGYNGHORI

Roedd copi o adroddiad gan y Dirprwy Swyddog Monitro (DMO), a oedd yn darparu copi o Fil drafft Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ac yn gofyn am sylwadau gan y Pwyllgor er mwyn llunio ymateb, wedi'i gylchredeg ynghynt.

Eglurwyd y byddai'r adroddiad yn galluogi'r Aelodau i ystyried y cynigion a chyfrannu at y broses ymgynghori ffurfiol.

Mewn cyfarfod diweddar o'r Pwyllgor Safonau, cyflwynwyd eitem fusnes ar Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2014/15, pan gyfeiriwyd at y posibilrwydd o ymestyn pwerau i'r Ombwdsmon yng Nghymru.

Roedd y nodyn atgoffa a gyflwynwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru newydd wedi cael ei ymgorffori yn yr adroddiad, gyda'r Bil wedi'i gynnwys fel Atodiad 1 a llythyr ymgynghori fel Atodiad 2. Roedd cyfraniad cynharach Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn y broses yn amgaeedig fel Atodiad 3.

21 Hydref 2015, cyhoeddodd Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru ymgynghoriad yn ceisio barn unigolion a sefydliadau ar y cynigion ym Mil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft, a fwriedir i gryfhau pwerau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Yn dilyn argymhellion a ddarparwyd mewn adroddiad ym mis Mai, 2015, roedd cynigion y Pwyllgor Cyllid yn y Bil drafft yn cynnwys rhoi pwerau i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru:

- Gychwyn ei ymchwiliadau ei hun a derbyn cwynion llafar.
- Delio â chwynion ar draws gwasanaethau cyhoeddus.
- Ymestyn awdurdodaeth yr Ombwdsmon i gynnwys darparwyr gofal iechyd preifat (mewn rhai amgylchiadau).

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro y byddai'r ymgynghoriad yn cau 18 Ionawr, 2016.

Gallai effaith y cynigion ar Bwyllgorau Safonau arwain at hyd yn oed mwy o ddibyniaeth ar Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau i orfodi'r Cod Ymddygiad, a llai o ddibyniaeth ar Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o ystyried diffyg cyfeiriad penodol, neu gyfeiriad penodol annigonol at God Ymddygiad Aelodau a Rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn y Bil. Gwahoddwyd yr aelodau i roi sylwadau ar Atodiad 3, a'r sylwadau ynddo ar God Ymddygiad Aelodau.

Gwnaeth Aelodau'r Pwyllgor arsylwadau ac fe wnaethant fynegi'r safbwyntiau a ganlyn mewn perthynas â Bil drafft Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru:-

\- Cyfeiriodd y Cadeirydd at Dudalen 28, Adran 12 (1) o'r Rhaglen "Efallai na fydd yr Ombwdsmon yn ymchwilio i fater o dan y Rhan hon os yw'r person a dramgwyddwyd, os o gwbl, gyda neu wedi cael:- (c) datrysiad ar ffurf achos mewn llys barn". Amlygodd yr angen am eglurder ac eglurodd, mewn achosion lle bu honiadau o athrod, gellid delio â materion o'r fath drwy weithredu wedyn am ddifenwi. Fodd bynnag, cyfeiriodd at faterion eraill y gellid eu codi na fyddai'n cael eu cwmpasu'n uniongyrchol gan gamau gweithredu dilynol.

Eglurodd y Swyddog Monitro mai Bil drafft oedd hwn ac amlinellodd y pwerau sydd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o ran awdurdodaeth y Pwyllgor Safonau mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad, fel y crybwyllir yn Neddf Llywodraeth Leol 2000. Hysbysodd yr Aelodau fod Deddf gyfredol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2005, a ddisodlir gan Fil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn delio â'r awdurdodaeth mewn perthynas â chwynion am wasanaeth neu gamweinyddu, ac yn darparu gwahaniaeth rhwng dwy rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Hysbyswyd yr Aelodau bod yr

adroddiad yn amlinellu gwaith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ac yn amlygu canlyniadau dilynol posibl y Bil. Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at ganfyddiadau'r ymchwiliad, a gynhaliwyd gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol, ar waith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Amlinellwyd y pryderon a godwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn Atodiad 3 i'r adroddiad gan y Swyddog Monitro, a chyfeiriwyd yn arbennig at y canlyniadau posibl sy'n deillio o ddiffyg cyllid ac adnoddau ychwanegol, yr effaith ar faterion Cod Ymddygiad ac o bosibl, encilio o'r agenda moesegol. Mynegodd y Swyddog Monitro bryder hefyd mewn perthynas ag unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r ddeddfwriaeth.

Mynegodd y Cadeirydd y farn y gallai cynnydd mewn pwerau, gyda chyllideb sefydlog ac adnoddau staff, gael effaith andwyol gyda phenderfyniadau yn gorfod cael eu gwneud ar ba gwynion i ymchwilio iddynt a'r angen am flaenoriaethu. Teimlai'r Cadeirydd y gellid rhoi ystyriaeth i gynyddu pwerau Pwyllgorau Safonau, o dan gyfyngiadau o'r fath.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at Dudalen 46, Adran 44, (1) Y bobl sydd â hawl i gwyno wrth yr Ombwdsmon yw:- (a) aelod o'r cyhoedd sy'n honni neu wedi honni iddynt gael anghyfiawnder neu galedi". Teimlai fod angen eglurhad gyda diffiniad o ran "anghyfiawnder a chaledi". Cyfeiriodd yn benodol at y diffyg manylder ac ansicrwydd yn ymwneud â'r bobl sydd â hawl i gwyno.

Tynnodd yr Aelod Annibynnol J. Hughes (JH) sylw at y materion canlynol:-

- Dylid cael ymrwymiad o fewn y fframwaith, i ddarparu ymatebion electronig neu gopi caled.
- Mynegwyd cefnogaeth i Ombwdsmon Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru gael pwerau i adennill y costau wrth ymchwilio i wasanaethau iechyd preifat, a fyddai'n helpu i gynorthwyo wrth ddilyn ymchwiliadau drwy'r broses gyfan.
- Cyfeiriwyd at Dudalen 91, Tystiolaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd y broses a'r angen i sicrhau bod ymgynghori ac ymgysylltu effeithiol. Pwysleisiwyd na ddylid rhuthro'r broses i gyd-fynd ag Etholiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru, a allai arwain at ganlyniadau anfwriadol. Teimlwyd y dylid archwilio pob opsiwn arall yn llawn, gan gynnwys unrhyw feysydd problemus posibl.
- Codwyd pryderon mewn perthynas â'r paragraff olaf ar dudalen 96. Cyfeiriwyd at y newidiadau posibl yn rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r effeithiau dilynol sy'n codi o uno Awdurdodau. Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn cefnogi'r farn y gallai diwygio rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a gwanhau'r Cod yn dilyn hynny, fod yn gam yn ôl ar adeg pan gynigiwyd diwygio mor ddadleuol o fewn Llywodraeth Leol. Mynegwyd y farn y gallai pwerau cynyddol arfaethedig i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gael effaith andwyol ar ganfyddiad y cyhoedd mewn perthynas â chwynion yn erbyn Cynghorwyr.

Teimlai'r Aelod Annibynnol A. Mellor y gallai cryfhau rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru roi hyder i achwynwyr a allai werthfawrogi cyfranogiad corff annibynnol, yn enwedig o ran cwynion sy'n ymwneud â'r GIG.

Fodd bynnag, roedd hi hefyd yn cydnabod effaith niweidiol bosibl ar y Cod Ymddygiad.

Mewn ymateb i gais gan y Cadeirydd i ystyried pryderon a godwyd gan y Pwyllgor, esboniodd y Swyddogion Monitro y byddai'r materion a godwyd yn cael eu cyfleu i'r swyddog sy'n llunio ymateb y Cyngor, er mwyn galluogi cynnwys barn y Pwyllgor yn ymateb ehangach y Cyngor.

Mynegodd Paula White, Aelod Annibynnol, ei gwerthfawrogiad am y gwaith a wnaed gan y Dirprwy Swyddog Monitro.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD*** *-bod y Pwyllgor Safonau yn cytuno cyfleu'r materion a godwyd gan yr Aelodau i'r swyddog sy'n llunio ymateb y Cyngor, er mwyn galluogi cynnwys barn y Pwyllgor yn ymateb ehangach y Cyngor.*
***(GW i Weithredu)***

**8 ADRODDIAD AR GYNHADLEDD SAFONAU CYMRU GYFAN**

Esboniodd y Cadeirydd ei fod wedi mynychu Cynhadledd Safonau Cymru Gyfan, a rhoddodd grynodeb manwl o'r cyfarfod a oedd yn cynnwys y pwyntiau amlwg a ganlyn:-

- Roedd y Gynhadledd wedi cael nifer dda yn mynychu gyda chynrychiolwyr o bob Awdurdod Lleol yng Nghymru, gan gynnwys llawer o gynrychiolwyr o Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned.
- Rhoddwyd areithiau allweddol gan:-

- Nick Bennett (Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru)
- Lyn Cadwallader (Prif Weithredwr Un Llais Cymru)
- Peter Davies (Llywydd rhan-amser Panel Dyfarnu Cymru)
- Jan Williams (Comisiynydd Cwynion Annibynnol yr Heddlu Cymru)

Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr araith gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o'r enw "A yw Egwyddorion Nolan yn Addas i'r Diben". Cyfeiriwyd at y posibilrwydd efallai nad ydynt yn addas i'r diben oherwydd nad oedd digon o sylw wedi cael ei roi i arweinyddiaeth, a oedd wedi awgrymu y dylid cael hyfforddiant mwy effeithiol i arweinwyr. Cyfeiriodd y Cadeirydd at y gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud yn hyn o beth gan Swyddog Monitro a Dirprwy Swyddog Monitro Sir Ddinbych.

- O'r 231 o gwynion a ddaeth i lawr gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru dros gyfnod o ddeuddeg mis, a oedd yn ymwneud â materion Cod Ymddygiad, dim ond 17 oedd wedi cael eu nodi fel toriad posibl, gyda dim ond 8 yn cael eu cyfeirio at y Pwyllgorau Safonau.
- Roedd mater a nifer y cwynion blinderus wedi cael eu hamlygu gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Cyfeiriwyd at ganfyddiad y cyhoedd ynglŷn â dosbarthiad y cwynion yn flinderus, a'r cyhoedd yn mabwysiadu agwedd negyddol o bosibl ynghylch cyflwyno cwynion.

- Y farn a fynegwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yw y gallai cwynion blinderus godi o ganlyniad i arweinyddiaeth wael.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y dewis o weithdai sydd ar gael ac eglurodd ei fod wedi mynychu gweithdai "Codi Pryderon" a "Llywodraethu a Safonau". Cyfeiriodd at nifer o Awdurdodau yng Nghymru, gan gynnwys Caerdydd a Wrecsam, sydd wedi enwi eu Pwyllgorau Safonau yn "Bwyllgor Safonau a Moeseg". Esboniodd y Cadeirydd fod Pwyllgor Safonau a Moeseg Caerdydd wedi cael cyfrifoldeb i oruchwylio a monitro gweithdrefn codi pryderon y Cyngor, ac yn ystyried unrhyw faterion moesegol sy'n codi o hynny. Teimlai'r Cadeirydd y gallai'r dull hwn gael ei ystyried gan y Cyngor Llawn i'w fabwysiadu yn Sir Ddinbych.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, rhoddodd y Swyddog Monitro fanylion y gyfraith sy'n rheoli diogelu gweithwyr sydd wedi codi pryderon neu gyflwyno cwyn. Cyfeiriodd at arwyddocâd cwynion neu honiadau o'r fath sydd wedi'u codi'n ddidwyll, a chadarnhaodd nad oedd unrhyw gyfyngiadau amser ynghylch y cyfnod diogelu.

Cylchredwyd deunydd darllen a ddarparwyd gan y Cadeirydd, a oedd wedi'u dosbarthu yn y gweithdy ar Safonau Llywodraethu Cynghorau Tref a Chymuned, i Aelodau'r Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD*** *- bod y Pwyllgor Safonau yn derbyn a nodi cynnwys adroddiad y Cadeirydd ynglŷn â Chyfarfod Cynhadledd Safonau Cymru Gyfan.*

## 9 HYGYRCHEDD GWYBODAETH GAN GYNGHORAU DINAS, TREF A CHYMUNED.

Cyfeiriodd yr Aelod Annibynnol Julia Hughes (JH) at drafodaethau blaenorol ar gyhoeddi gwybodaeth yn electronig gan Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned, a oedd bellach yn orfodol, a thynnodd sylw at yr angen am fynediad rhwydd at wybodaeth.

Fel y cytunwyd yn y cyfarfod blaenorol, rhoddodd grynodeb manwl o'r archwiliad gwirfoddol i asesu hygyrchedd gwybodaeth oddi ar wefannau'r pedwar ar bymtheg Cyngor Dinas, Tref a Chymuned canlynol:-

Dinbych, Derwen, Dyserth, Efenechtyd, Gwyddelwern, Henllan, Llanarmon-yn-Iâl, Llanbedr Dyffryn Clwyd, Llandegla, Llandrillo, Llandyrnog, Llanelidan, Llanfair Dyffryn Clwyd, Llanferres, Llangollen, Llangynhafal, Llanrhaeadr, Llantysilio, Llanynys.

Roedd y meysydd a archwiliwyd a'r wybodaeth a geisiwyd o'r archwiliad yn cynnwys:-

- Darparu gwefan a'i hygyrchedd
- Argaeledd cofnodion y cyfarfod blaenorol
- Manylion am ddyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod nesaf, a mynediad i raglenni
- Darparu diweddariadau rheolaidd

Esboniodd JH, o ran meysydd i'w harchwilio, ei bod wedi cynnwys colofnau yn ymwneud â darpariaeth ddwyieithog ac unrhyw nodiadau cyffredinol.

Amlygwyd y pwyntiau amlycaf canlynol o'r arfer a gynhaliwyd:-

- Roedd nifer o Gynghorau yn methu â chwrdd â'r gofynion gorfodol. Fodd bynnag, nodwyd bod yna hefyd lawer o arferion da.
- Dylid ei wneud yn ofynnol i bob Cyngor Dinas, Tref a Chymuned gael dolen i wefan Sir Ddinbych.
- Roedd rhai gwefannau wedi dyddio.
- Yr angen i sicrhau bod dolenni cyswllt gwefan yn gywir ac yn gyfredol.
- Nid oedd pob gwefan yn ddwyieithog, a thynnwyd sylw at bwysigrwydd darparu gwybodaeth ddwyieithog.
- Mewn rhai achosion, roedd gwefannau ar hyn o bryd yn cael eu datblygu.
- Roedd gan nifer o wefannau raglenni safonol nad oedd byth yn newid.
- Mewn rhai achosion, darparwyd ffurflenni electronig at ddibenion cyswllt.
- Roedd buddion drwy ddarparu sawl dull o gael gafael ar wybodaeth.
- Mae angen nodi fod llawer o'r gwaith yn cael ei wneud ar sail wirfoddol.
- Yr angen am eglurhad mewn perthynas â'r ddarpariaeth orfodol a dymunol.
- Ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddarparu hyfforddiant i Glercod Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned.

Hysbyswyd y Pwyllgor gan y Swyddog Monitro bod pryderon wedi cael eu codi ynghylch argaeledd adnoddau o ran darparu a chynnal a chadw gwefannau, yn enwedig ar gyfer Cynghorau gwledig llai. Eglurodd hefyd fod Clercod i Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned ond yn cael eu talu am nifer penodol o oriau.

Gyda chymeradwyaeth Aelodau, cytunodd y Swyddog Monitro y dylai canlyniad y trafodaethau mewn perthynas â'r archwiliad a gynhaliwyd gan JH gael ei anfon ymlaen at y Rheolwr Cynhwysiant Cymunedol, a gysylltodd yn rheolaidd gyda Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned ac a allai gyfleu'r farn a fynegwyd i'r Cynghorau perthnasol, ac fe allai'r materion gael sylw ar sail lled uchelgeisiol. Amlinellodd gylch gwaith y Pwyllgor Safonau hefyd ac esboniodd nad oedd y materion a drafodwyd o angenrheidrwydd yn faterion Cod Ymddygiad.

Cyfeiriodd y Cynghorydd W.L. Cowie at y dull a fabwysiadwyd gan Gyngor Dinas Llanelwy o ran y polisi dwyieithog a darparu gwybodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Ar gais y Cynghorydd Cowie, cytunodd y Swyddog Monitro i gysylltu â'r Swyddogion Arweiniol ar Safonau'r Gymraeg yn Sir Ddinbych, gyda'r bwriad o gysylltu a darparu cyngor a chymorth i Glerc Cyngor Dinas Llanelwy mewn perthynas â Pholisi'r Gymraeg.

Tynnwyd sylw at bwysigrwydd pennu'r amserlenni, gan y byddai'r wybodaeth a ddarperir yn yr adroddiad yn gallu newid ar ôl ei gynhyrchu.

Diolchodd y Cadeirydd i JH am y gwaith caled a wnaed i gynhyrchu'r wybodaeth, a fyddai'n galluogi'r Pwyllgor i fonitro tueddiadau a gwneud awgrymiadau ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol. Cadarnhaodd y Pwyllgor y byddai'n derbyn adroddiad

diweddaru ysgrifenedig yn ei gyfarfod ym mis Mawrth, 2016, fel y nodir yn rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD*** *- bod y Pwyllgor Safonau:-*

*(a) yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad a gyflwynwyd gan yr Aelod Annibynnol Julia Hughes,*
*(b) yn anfon canlyniad y trafodaethau mewn perthynas â'r archwiliad ymlaen at y Rheolwr Cynhwysiant Cymunedol, a fyddai'n cael cais i ymgysylltu â'r Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned ynghylch y materion a godwyd.*
*(c) y Swyddog Monitro i gysylltu â'r Swyddogion Arweiniol ar Safonau'r Gymraeg yn Sir Ddinbych, gyda'r bwriad o gysylltu a darparu cyngor a chymorth i Glerc Cyngor Dinas Llanelwy mewn perthynas â Pholisi'r Gymraeg.*
*(d) yn cyflwyno adroddiad diweddaru ysgrifenedig i gyfarfod Mawrth, 2016 o'r Pwyllgor.*
***(GW i Weithredu)***

## 10 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD

Gwahoddwyd Aelodau'r Pwyllgor i roi adborth o gyfarfodydd Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned y gwnaethant eu mynychu'n ddiweddar, ac fe gymerodd Aelodau'r cyfle i gynnig crynodeb o sut roedd y Cynghorau perthnasol wedi gweithredu.

Roedd y Cynghorydd W.L. Cowie wedi mynychu cyfarfod Cyngor Dinas Llanelwy. Cadarnhaodd nad oedd wedi dod ar draws unrhyw broblemau ac yn fodlon ar y modd y cynhaliwyd y cyfarfod.

Mynychodd yr Aelodau Annibynnol Anne Mellor (AM) a Julia Hughes (JH) gyfarfod Cyngor Cymuned Aberchwiler 7 Hydref, 2015 ac fe dynnwyd sylw at y materion canlynol:-

- Nid oedd unrhyw feysydd o bryder wedi cael eu nodi, a chadarnhaodd y ddau Aelod Annibynnol eu bod yn fodlon ar y modd y cynhaliwyd y cyfarfod.
- Roedd cynrychiolydd y Cyngor Sir lleol wedi mynychu'r cyfarfod ac wedi bod yn hynod ddefnyddiol ac yn llawn gwybodaeth.

Mynychodd yr Aelod Annibynnol Julia Hughes (JH) gyfarfod y Cyngor Sir Arbennig ar 7 Hydref, 2015, a oedd a nifer dda yn bresennol, ac ni chodwyd unrhyw faterion o bryder.

Mynychodd yr Aelod Annibynnol Julia Hughes (JH) y cyfarfodydd canlynol ac amlygwyd y pwyntiau a'r materion canlynol:-

Cyngor Tref Bodelwyddan:-

- Ni fu unrhyw wybodaeth ar gael ar y wefan, a oedd angen ei diweddaru. Fodd bynnag, roedd y Clerc wedi bod yn ymatebol iawn, yn gadarnhaol ac yn ddefnyddiol.
- Rhoddwyd cefnogaeth gan y Clerc i'r Cadeirydd a'r Aelodau yn ystod y cyfarfod.

Cafwyd trosolwg gan JH a oedd yn cynnwys y meysydd canlynol o bryder:-

- Nid oedd y cyfarfod wedi'i reoli yn y modd mwyaf effeithiol
- Nid oedd yr aelodau'n parchu Cadeirydd y cyd Gynghorwyr yn ystod achosion. Cafodd hyn effaith andwyol ar reolaeth y cyfarfod, ac nid oedd Aelodau wedi cymhwyso protocol a oedd yn briodol i gyfrifoldeb eu swyddi fel Cynghorwyr Tref a chynrychiolwyr preswylwyr lleol.
- Cydnabuwyd yr anhawster wrth recriwtio pobl i'r swyddi gwirfoddol, gyda dim ond un cais wedi dod i law ar gyfer dwy swydd wag yn y Cyngor Tref.

Yn dilyn trafodaeth fer, gofynnodd y Pwyllgor bod y Swyddog Monitro'n ysgrifennu at Glerc Cyngor Cymuned Bodelwyddan yn tynnu sylw at y materion a godwyd gan yr Aelod Annibynnol J. Hughes, a'r pryderon dilynol a fynegwyd gan y Pwyllgor Safonau ar ôl ystyried ei hadroddiad.

Cyngor Cymuned Nantglyn - 6 Hydref, 2015:-

- Rhoddwyd enghraifft dda o sut y dylai cyfarfod redeg.
- Roedd gan y Cyngor wefan dda, yn llawn gwybodaeth ac wedi'i dylunio'n dda.
- Anfonwyd e-bost at y Clerc er mwyn cael manylion y lleoliad, y rhaglen a chofnodion y cyfarfod nesaf.
- Roedd Clerc y Cyngor wedi bod yn ddefnyddiol iawn.
- Ni wiriodd y Clerc Aelod o'r Cyngor a gyrhaeddodd yn hwyr, mewn perthynas â Datganiadau o Gysylltiad.
- Cymerodd Aelodau'r Cyngor ran yn holl eitemau'r rhaglen mewn modd cefnogol ac adeiladol.
- Rheolodd y Cadeirydd y cyfarfod yn dda ac fe gafodd ei gefnogi gan y Clerc, a chynhaliwyd busnes mewn modd trefnus a chywir.
- Roedd Ceisiadau Cynllunio wedi cael sylw yn ofalus ac wedi'u trin yn briodol.
- Cyflwynodd y Cadeirydd JH i Aelodau'r Cyngor a dywedodd ei fod yn synnu nad oedd wedi cael gwybod am fwriad y Pwyllgor Safonau. Amlinellodd JH ddiben yr ymweliadau i ddarparu cefnogaeth i'r Cynghorau perthnasol, a chodi proffil y Pwyllgor Safonau i osgoi bod yn gorff o bell.
- Rhoddwyd adborth am drafodion y cyfarfod gan JH.

Hysbyswyd y Pwyllgor bod Aelod o'r Cyngor Cymuned wedi mynegi'r farn nad oedd wedi cael gwybod am fwriadau'r Pwyllgor Safonau, ac yn dilyn trafodaethau gyda'r Swyddog Monitro, ei ddealltwriaeth ef oedd bod rôl y Pwyllgor Safonau'n gysylltiedig â materion sy'n ymwneud â'r Cod Ymddygiad ac nid materion Llywodraethu. Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd ynghylch cwestiynau yn ymwneud â'r wefan, cyfeiriodd JH at gyflwyniad y ddeddfwriaeth ddiweddar.

Hysbyswyd yr Aelodau, yn dilyn y cyfarfod, bod JH wedi anfon e-bost at Glerc y Cyngor Cymuned, a ddarllenwyd yn y cyfarfod, yn crynhoi rôl, cylch gorchwyl a phrif ddyletswyddau'r Pwyllgor Safonau.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan Aelodau'r Pwyllgor Safonau ynghylch Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned yn dod yn ymwybodol o rôl y Pwyllgor

Safonau, cytunodd y Swyddog Monitro i ysgrifennu at Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned yn amgáu manylion rôl a chylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau. Rhoddodd y Swyddog Monitro gadarnhad nad oedd yn orfodol i Aelodau'r Pwyllgor Safonau ymweld neu fynychu cyfarfodydd Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned.

Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor ei fod ef a'r Swyddog Monitro wedi mynychu cyfarfod Clercod a Chynghorwyr Cymuned 25 Tachwedd, 2015. Rhoddwyd manylion ynghylch yr eitemau a drafodwyd, a'r gweithrediadau, gan y Cadeirydd. Cafwyd cadarnhad bod y cyfarfod wedi ei gadeirio'n dda ac ni chodwyd unrhyw faterion o bryder.

Hysbysodd y Swyddog Monitro'r Pwyllgor fod cwestiynau am ddarparu hyfforddiant, a darparwyr hyfforddiant, wedi cael eu codi o ran y posibilrwydd o ddyblygu darpariaeth. Eglurodd fod y Prif Weithredwr wedi gofyn am gael archwilio'r rhaglen gyfannol o hyfforddiant, ar y cyd â darparwyr eraill. Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at ei gyfrifoldeb o ran lefel, amlder a safon y ddarpariaeth o hyfforddiant mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad. Mynegodd y Cadeirydd y farn bod y lefel o hyfforddiant a ddarperir gan Sir Ddinbych wedi bod yn ardderchog.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD*** *- bod y Pwyllgor Safonau:-*

*(a) yn derbyn ac yn nodi adborth a gyflwynwyd o gyfarfodydd diweddar a fynychwyd gan Aelodau'r Pwyllgor.*
*(b) yn gofyn i'r Swyddog Monitro ysgrifennu at Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned yn amgáu manylion rôl a chylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau, a*
*(c) chytuno bod y Swyddog Monitro yn ysgrifennu at Glerc Cyngor Tref Bodelwyddan yn tynnu sylw at y materion a godwyd gan yr Aelod Annibynnol J. Hughes, a'r pryderon dilynol a fynegwyd gan y Pwyllgor Safonau.*
***(GW i Weithredu)***

**11 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Nododd yr aelodau amser, dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Safonau, a:-

***PHENDERFYNWYD*** *- bod y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Safonau yn cael ei gynnal ddydd Gwener 4 Mawrth, 2015 yn Ystafell Gynadledda 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun.*

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *- o dan Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd i'w gwahardd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem(au) busnes canlynol ar y sail eu bod yn debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 a 13 o Ran 4 Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

**RHAN II**

**12 COD YMDDYGIAD - RHAN 3 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

Roedd copi o adroddiad cyfrinachol gan y Swyddog Monitro, a oedd yn rhoi trosolwg o gwynion a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, wedi ei gylchredeg gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Roedd y Pwyllgor Safonau eisoes wedi gofyn am gael gwybod yn rheolaidd am lefel y cwynion a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Roedd y tablau yn Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o gwynion a gyflwynwyd ers 1 Ebrill 2015.

Cadarnhaodd y Dirprwy Swyddog Monitro nad oedd yr un o'r naw achos y cyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad wedi cael eu dilyn gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

***PENDERFYNWYD*** *- bod y Pwyllgor Safonau yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.50 p.m.